# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 24.09.09

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams (Cadeirydd); Dewi Llewelyn; Ieuan Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ymgeiswyr:** Mr Yannis Petrou

**Cynrychioli'r Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru)

**1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO PLOT 13, STAD DDIWYDIANNOL LLANDEGAI, BANGOR,**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais Mr Yannou Petrou am drwydded eiddo ar gyfer Plot 13, Stad Ddiwydiannol Llandegai, Bangor.

Cyn dechrau'r cyfarfod eglurodd yr ymgeisydd iddo gael cyfarfod gyda swyddog o'r Heddlu i drafod manylion y cais, ac o ganlyniad ei fod yn dymuno gwneud diwygiadau, gan ofyn am arweiniad yr Is-bwyllgor ynghylch y ffordd ymlaen. Ymddiheurodd am ei anwybodaeth o'r drefn, gan egluro mai dyma'r cais cyntaf o'i fath iddo gyflwyno.

Wedi ymgynghori, hysbyswyd yr ymgeisydd y gallai ddewis rhwng mynd ymlaen i drafod y cais sydd ar y rhaglen neu dynnu'r cais yn ôl er mwyn cyflwyno cais o'r newydd yn y ffordd arferol, a phenderfynodd yr ymgeisydd dynnu'r cais yn ôl a chyflwyno cais o'r newydd wedi cyfarfod pellach gyda swyddogion yr Heddlu a'r Rheolwr Trwyddedu i drafod manylion.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 11.25am